CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR
A GYNHALIWYD AR 25 IONAWR 2017

Y Maer, y Cyngh Wyn Thomas, fu'n cadeirio'r cyfarfod misol o Gyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr, nos Fercher y 25ain o Ionawr 2017 am 7.30 pm.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Dorothy Bere, Philip Grice, Peter Hughes Griffiths, Angharad Jones Leefe, Alun Lenny, Kenneth Lloyd, Dr Ioan Matthews, Emlyn Schiavone, Alan Speake a Wyn Thomas

429. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Dr Richard Edwards, Dr Dewi Evans, Anthony Jenkins, Arwel Lloyd a Douglas Rose.

430. DATGAN BUDDIANNAU

Dywedodd y Cyngh Alun Lenny bod ganddo fuddiant yn eitem rhif 8(a) ar yr agenda, Ceisiadau Cynllunio Cyfredol, fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

Dywedodd y Cyngh Wyn Thomas bod ganddo fuddiant fel un o ymddiriedolwyr Oriel Myrddin.

Dywedodd y Cyngh Dr Ioan Matthews bod ganddo fuddiant yn eitem rhif 10 ar yr agenda, Prosiect Llwybrau Diogel, fel Llywodraethwr Ysgol y Dderwen.

Dywedodd y Cyngh Emlyn Schivone bod ganddo fuddiant ym materion Tŷ Ni a Tŷ Hapus a hefyd Dr M'z.

431. CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD MISOL O'R CYNGOR A GYNHALIWYD AR 14 RHAGFYR 2016

Cynigiwyd gan y Cyngh Kenneth Lloyd, eiliwyd gan y Cyngh Tom Defis, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y Cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 14eg o Ragfyr 2016 a'u derbyn yn gofnod cywir.

432. MATERION YN CODI

Ymdriniwyd ag unrhyw faterion oedd yn codi yn eitem 10(a) Ceisiadau Cynllunio Cyfredol.

433. CWESTIYNAU

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

434. CADARNHAU A LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD MISOL O'R PWYLLGOR CYLLID A GYNHALIWYD AR 12 IONAWR 2017

Cynigiwyd gan y Cyngh Tom Defis, eiliwyd gan y Cyngh Emlyn Schiavone, a **PHENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod misol o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar y 12fed o Ionawr 2017 a'u derbyn yn gofnod cywir. Roedd pawb yn gytûn.

435. MATERION YN CODI

(a) Cofnod 421: Adolygu'r Strategaeth Buddsoddi

Cynigiwyd gan y Cyngh Tom Defis, eiliwyd gan y Cyngh Alun Lenny, a **PHENDERFYNWYD** bod holl arian gweddill y Cyngor yn cael ei gadw yng Nghyfrif Wrth Gefn Nat West. Roedd pawb yn gytûn.

(b) Cofnod 423: Cyllideb Ddrafft y Cyngor Tref ar gyfer 2017/18

Cynigiwyd gan y Cyngh Tom Defis, eiliwyd gan y Cyngh Emlyn Schiavone, a **PHENDERFYNWYD** (9 o blaid, 1 yn erbyn):-

(i) bod y Cyngor yn cadw cyfradd Band D ar £126.50 ar gyfer 2017/18.

(iii) bod Clerc y Dref yn hysbysu Cyngor Sir Caerfyrddin mai praesept y Cyngor Tref ar gyfer 2017/18 fydd £674,286 sy'n gyfystyr â chyfradd Treth y Cyngor o £126.50 ar eiddo Band D.

436. MATERION CYNLLUNIO: CEISIADAU CYNLLUNIO CYFREDOL

Ynghlwm fel Atodiad 2 i'r agenda oedd rhestr o'r ceisiadau cyfredol. Gyda chaniatâd y Cadeirydd, cyflwynwyd ceisiadau pellach. Trafodwyd y ceisiadau hyn fel a ganlyn:

(a) W/34922, Tir ar Heol y Capel (gerllaw cefn y siop O2), gosod 3 ciosg ar bwys ei gilydd ar dir cyhoeddus i gerddwyr, cynllunio llawn - **CEFNOGWYD**

(b) W/34930, Tir rhwng 113-117 Heol y Prior - Dymchwel ystafell arddangos ceir a depo cynnal ceir, tŷ preswyl a hen dŷ cowrt, tai unigol a thŷ pen teras, ac adeiladu unedau preswyl a thŷ preswyl, a llefydd parcio ac ardaloedd tirweddu a seilwaith cysylltiedig - **CEFNOGWYD** – yn amodol ar welliannau diogelwch ffordd yn Stryd y Prior a hefyd defnydd pwerau 'adran 106' o Ddeddf Cynllunio Cymru 1990 ynghylch maes chwarae, ayyb.

(c) Dywedodd Clerc y Dref bod hysbysiadau apêl wedi dod i law o ran ceisiadau cynllunio blaenorol am ddileu amodau ar y maes parcio ar Heol yr Hen Orsaf, a hefyd gosod erialau telegyfathrebu ac offer ym Mharc Caerfyrddin. Cyfeirir y ddau fater at y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol fis Chwefror.

437. MATERION PRIFFYRDD

Nid oedd unrhyw faterion priffyrdd wedi codi.

438. MATERION TRWYDDEDU

Cais i amrywio Trwydded Safle - Siop Ffordd Sycamorwydden, 106 Ffordd Sycamorwydden, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin. SA31 3QG. Cais i: Werthu alcohol dydd Llun i ddydd Sul 0700-22.00

Cynigiwyd gan y Cyngh Dr Ioan Matthews ac eiliwyd gan y Cyngh Kenneth Lloyd i gefnogi'r cais. Roedd pawb yn gytûn.

439. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Bydd Clerc y Dref yn mynychu'r cyfarfod yn Llanbedr Pont Steffan ar yr 2ail o Chwefror 2017.

440. PROSIECT LLWYBRAU DIOGEL

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref i gyflwyno mesurau diogelwch ffyrdd yng nghyffiniau Ysgol Gynradd Tre Ioan ac Ysgol y Dderwen.

Cynigiwyd gan y Cyngh Alun Lenny, eiliwyd gan y Cyngh Peter Hughes Griffiths, a **PHENDERFYNWYD** cefnogi'r cais a bod Clerc y Dref yn ymateb ar ran y Cyngor i'r Prosiect Llwybrau Diogel.

441. FFORWM ADFYWIO TREF CAERFYRDDIN

NODWYD adroddiad Clerc y Dref.

442. LLYTHYRON O WERTHFAWROGIAD

NODWYD y llythyron o werthfawrogiad.

443. COFNODION CYFARFOD O BWYLLGOR AMGYLCHEDDOL SIAN JOHNSTON A'R CYFARFOD O'R PWYLLGOR MASNACH DEG A GYNHALIWYD AR 12 IONAWR 2017.

Cyflwynodd y Clerc gofnodion Pwyllgor Amgylcheddol Sian Johnston gerbron a chofnodion y Pwyllgor Masnach Deg a gynhaliwyd ar y 12fed o Ionawr 2017. Dywedodd y Cyngh Tom Defis mai dyddiad y bore coffi oedd yr 8fed o Fawrth 2017.

NODWYD y cofnodion.

444. ADRODDIADAU GAN GYNGHORWYR FEL CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL, YNGHYD AG ADRODDIAD Y MAER

Roedd y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer, y Cyngh Wyn Thomas, wedi'u dosbarthu fel Atodiad 5 i'r agenda.

Roedd y Cyngh Wyn Thomas wedi mynychu Fforwm Cynghorau Mwy o Faint De Cymru ynghyd â'r Clerc, a dywedodd bod y cyfarfod yn werth chweil a'i fod wedi dysgu llawer. Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r fforwm yng Nghaerfyrddin yr haf hwn.

Roedd y Cyngh Alun Lenny wedi mynychu'r Gwasanaeth Dinesig Blynyddol a gynhaliwyd yn Eglwys San Pedr, ynghyd â'r Siryf Emlyn Schiavone, ar ran y Maer.

Roedd y Cyngh Emlyn Schiavone wedi mynychu cyfarfod blynyddol Tŷ Ni/Tŷ Hapus a hefyd cyfarfod blynyddol Dr Mz.

Roedd y Cyngh Phillip Grice wedi mynychu cyfarfod yn Ysgol Gynradd Tre Ioan. Hefyd dywedodd bod y Cyngor Sir wedi cymryd drosodd y cyfrifoldeb o gynnal Teithiau'r Dref.

Roedd y Cyngh Barry Williams wedi cyflwyno adroddiad gerbron o Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda.

Roedd y Cyngh Peter Hughes Griffiths wedi atgoffa'r Aelodau y bydd Cymdeithas Gefeillio Lesneven yn ymweld â Chaerfyrddin dros ddwy noson, a gofynnodd a fyddai unrhyw Aelod yn barod i gynnig llety i'r ymwelwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20 pm.